

## **Cyfarfod grŵp cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant**

I gynllunio ar gyfer y Cyfarfod Gweinidogol ym mis Medi 2022

19 Gorffennaf, 2022

Nodiadau

### **Mynychwyr**

- Kate Young, Fforwm Cymru Gyfan
- Neil Williams, Gofal a Thrwsio
- Debbie Shaffer, Triniaeth Deg i Ferched Cymru
- Zoe Richards, Anabledd Dysgu Cymru
- Gemma Lelliot, Cymdeithas Cludiant Cymunedol
- Ross Evans, Aren Cymru
- Wynne Roberts, Cyngor Rhyng-ffydd
- Lewis Clark, Tŷ Hafan
- Sarah Roche, Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (RVS)
- Claire Morgan, Gofalwyr Cymru
- Clair Swales, PAVO
- Matthew Brindley, Hospice UK
- Izzabella James, Home Start
- Cath Lewis, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
- Tracey Jones, Tŷ Hafan
- Donna Coyle, Cwmpas
- Roxanne Treacy, Rhwydwaith Cydgynhyrchu
- Ross Evans, Aren Cymru
- Simon Jones, Mind Cymru
- Zoe Richards, Anabledd Dysgu Cymru
- Sharon Richards, Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT)
- Becky Ricketts, Gofal a Thrwsio
- Chris Williams, Age Cymru
- Johanna Davies, CGGC
- Judith Stone, CGGC
- David Cook, CGGC

### **Cynllunio eitemau ar gyfer Cyfarfod Gweinidogol mis Medi**

Gwnaeth Judith ailadrodd y materion a oedd wedi'u trafod yn y cyfarfod diwethaf â'r Gweinidog ym mis Rhagfyr 2021, a'r materion a gafodd sylw yng nghyfarfod diweddaraf y Grŵp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant.

Diben y cyfarfod oedd cytuno ar eitemau agenda ar gyfer y cyfarfod â'r Gweinidog(ion) ar 8 Medi.

Fodd bynnag, awgrymodd Judith y gallai fod yn werth ystyried eitem ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth yng Nghymru mewn cyfarfod yng Ngwanwyn 2023, oherwydd dyma pryd y disgwylir i'r llywodraeth gynnal ymgynghoriad.

Cytunwyd yn gyflym ar ddwy eitem agenda pwysig ar gyfer y cyfarfod Gweinidogol ym mis Medi:

### *Yr argyfwng costau byw*

Cododd Simon yr argyfwng costau byw, yn benodol, nad yw comisiynwyr yn ystyried hwn wrth gomisiynu contractau ar gyfer darparwyr trydydd sector. Gallai hyn wthio staff i mewn i dlodi. Nodwyd fod awdurdodau lleol wedi cael cyllid ychwanegol gan y llywodraeth i alluogi cyllidebau i fodloni'r ymrwymadau Cyflog Byw ar gyfer darpariaeth gofal cymdeithasol y sector cyhoeddus. Mae Gweinidogion eisiau i'r sector ddarparu mwy, ond nid yw'r cyllid yn mynd mor bell â hyn. Mae awdurdodau lleol yn dod â rhai gwasanaethau'n fewnol neu mae partneriaid statudol yn hysbysebu swyddi tebyg yn y sector gwirfoddol, ond am fwy o arian. Mae'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol, ynghyd ag CGGC a phartneriaid eraill, wedi bod yn ymwneud yn ddiweddar â cheisio dylanwadu ar oblygiadau'r costau byw a threuliau gyrrwyr gwirfoddol: <https://ctauk.org/charities-call-on-chancellor-to-tackle-fuel-costs-crisis/> (*Saesneg yn unig*)

### *Pwysau'r gaeaf*

Cyfeiriodd Neil at y cyllid ychwanegol a oedd wedi'i ryddhau i'r trydydd sector er mwyn mynd i'r afael â 'phwysau'r gaeaf' y flwyddyn ddiwethaf a dywedodd y byddai angen hwn eto - yn ddelfrydol gyda mwy o amser paratoi. Amlygodd gwasanaethau'r sector gwirfoddol i gadw pobl allan o'r ysbyty a chaniatáu iddynt wella gartref. Mae'r argyfwng costau byw yn golygu bod asiantaethau yn poeni na fyddant yn cael y datrysiadau sydd eu hangen i gael pobl allan o'r ysbyty. Mae tlodi tanwydd ar fin saethu i fyny, felly mae problemau o ran cartrefi cynnes yn y gaeaf. Mae angen gweithredu ataliol i leihau'r pwysau ar y GIG - nid rhywbeth 'braf ei gael' mohono. Mae'n hanfodol. Mae tacluso, neu 'decluttering' yn Saesneg, hefyd yn broblem sy'n arwain at lai o waith trwsio ar adeiladau a llai o bosibilrwydd o ofal cartref.

Dywedodd Johanna y dylai sut y caiff cyllid ei ddsbarthu fod yn rhan o'r eitem hon, gan gynnwys mwy o gydweithio â Byrddau Iechyd.

Dywedodd Kate ei fod yn bwysig bod yr holl staff gofal, gofalywyr di-dâl a'r rheini y maen nhw'n gofalu amdanynt yn cael eu brechu ar yr un pryd er mwyn sicrhau y gall y system gofal ddal ati.

Dywedodd Gemma fod angen i gyllid ddod allan yn gyflym er mwyn galluogi cydgynhyrchiad a chydgyssylltiad ystyrton. Mae angen i ni wybod ble gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar fudiadau er mwyn helpu'r sector i helpu'r bobl mewn angen.

Nododd Wynne problemau o ran pobl sy'n aros yn yr ysbyty am eu bod yn byw mewn ardaloedd gwledig heb fawr iawn o wasanaethau gofal, os o gwbl, a heb ddigon o wydnwch cymunedol i helpu.

Nododd Cath pa mor bwysig oedd hi i ofalwyr di-dâl fod yn rhan o'r prosesau rhyddhau.

Dywedodd Debbie ei fod yn hanfodol bod y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael cyfarwyddyd i ymgysylltu â'r sector a mudiadau llawr gwlad ac

i'w gwerthfawrogi, er mwyn cyd-gynhyrchu gwasanaethau holistaidd a galluogi dull gweithredu ataliol.

Dyweddodd Kate fod yn rhaid i ni sicrhau yn y cyfarfod nad ydym yn dweud yr hyn rydym ni eisiau ei wneud yn unig; ein bod hefyd yn dweud yr hyn y gallwn ni ei gynnig a sut bydd yn cael ei ddarparu, ac i ystyried y mater hwn yn barhaus hyd at y Gwanwyn.

Awgrymodd Simon y dylid sicrhau bod y drafodaeth hon yn cysylltu'n ôl i'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth er mwyn sicrhau nad yw'r cynllun yn cael ei golli ymhlith y trafodaethau eraill.

Nododd Mathew broblemau ynghylch y ffaith bod GIG Lloegr yn codi cyflogau staff, a'r pwysau y bydd yn wynebu'r sector i gystadlu. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i sicrhau gwasanaethau.

Soniodd Wynne am ofalwyr nad ydynt yn cael eu talu am y milltiroedd rhwng galwadau.

Dyweddodd Kate fod angen i ni ddod ag astudiaethau achos i'r Cyfarfod fel tystiolaeth, ynghyd ag adnoddau i ddatrys y problemau, ac yna dangos a ydym eisiau'r un peth ag o'r blaen neu rywbeth ychwanegol. Mae angen i'r gwaith ffurfio rhaglen waith a fydd yn mynd rhagddi drwy'r gaeaf ac i mewn i'r Gwanwyn. Dylai'r papur gyflwyno achos i'r llywodraeth ddyrannu cyllid 'pwysau'r gaeaf' i'r sector eto eleni, yn ddelfrydol gyda mwy o amser baratoi er mwyn ein galluogi i baratoi'n effeithiol. A ddylai'r cais ofyn i'r un pecyn gael ei gyllido eleni, neu a yw'r rhagolygon o ran anghenion a datrysiadau'n wahanol? Dylai'r sector gyflwyno ei gynnig, gydag astudiaethau achos. *A ydym eisiau'r un peth eto, neu a ydym yn rhagweld problemau gwahanol sydd angen datrysiadau gwahanol? Beth sydd angen i ni ei wneud yn wahanol i sicrhau nad yw anghydraddoldebau iechyd yn gwaethygu?*

*Eitemau agenda a gadarnhawyd ar gyfer y Cyfarfod Gweinidogol ar 8 Medi*

- Goblygiadau'r argyfwng costau byw i'r sector gwirfoddol ac i wirfoddolwyr
- Rôl y sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr mewn lliniaru pwysau'r gaeaf
- Unrhyw fater arall

### **Camau gweithredu**

- CGGC i ddosbarthu'r adroddiadau gan Simon a Neil i'r grŵp.
- Dave i lunio strwythur amlinellol o'r ddau bapur, yna eu hanfon at y grŵp i gael eu sylwadau a'u tystiolaeth.
- Dave i ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb i siarad am y papurau yn y cyfarfod.
- Cyfarfod cynllunio byr arall i gael ei gynnal ar brynhawn 8 Awst 2022.